## Y gerddoriaeth y byddwch yn ei chlywed

Flaming Red Hair – Howard Shore
YouTube Spotify

Daw'r trac hwn o The Lord of the Rings: The Fellowship of the Ring. Mae'n ymddangos yn agos at ddechrau'r ffilm lle mae'r Hobbits yn dathlu pen-blwydd Bilbo Baggins. Caiff ei ddefnyddio i gyflwyno'r Hobbits, gyda'i naws bachog a llon yn dweud wrthym mai'r cymeriadau hyn yw'r prif gymeriadau (yr arwyr) yn y stori. Caiff yr alaw ei hysbrydoli gan gerddoriaeth werin Geltaidd draddodiadol (o Gymru, yr Alban, ac Iwerddon), gyda'r nodau hir isel sydd i'w clywed drwy'r darn yn dynwared sain y drôn a geir mewn cerddoriaeth i'r bagbib.

Fare Thee Well – Kate Rusby
YouTube Spotify Lyrics

Yn y gân Fare Thee Well sonnir am yr angen i symud ymlaen o'r gorffennol a chroesawu'r dyfodol. Mae'r llinellau agoriadol yn cyfeirio at ddiwrnod newydd yn gwawrio, gan gynrychioli mewn dull trosiadol ddechreuad cyfnod newydd mewn bywyd. Mae'r gantores yn optimistaidd ynghylch y dyfodol ac yn credu y bydd yr haul yn tywynnu i'w harwain at y lle oedd unwaith yn gyfarwydd iddi hi. Mae'r geiriau "the place I once knew" yn awgrymu bod y gantores wedi bod i ffwrdd, neu ar goll, am gyfnod a'i bod bellach yn barod i fynd yn ôl adref neu i adfer y person yr arferai fod.

Sosban Fach – Welsh Traditional, Rakhi & Simmy Singh
YouTube Spotify (Bryn Terfel) Lyrics

Cân werin Gymraeg draddodiadol yw Sosban Fach. Mae hi'n un o'r caneuon Cymraeg mwyaf adnabyddus, ac ymhlith y rhai sy'n cael eu canu amlaf. Seiliwyd y gân ar bennill a ysgrifennwyd gan Mynyddog yn 1873 fel rhan o'i gân Rheolau yr Aelwyd. Crëwyd y gân sy'n gyfarwydd i ni heddiw gan Talog Williams, cyfrifydd o Ddowlais, a aeth ati i addasu pennill Mynyddog ac ychwanegu pedwar pennill newydd. Mae'r gân yn disgrifio helyntion gwraig tŷ.

Prelude for The Witches from Dido & Aenaes – Henry Purcell
YouTube Spotify Lyrics (beginning of Act 2)

Opera yw Dido and Aeneas, wedi ei chyfansoddi gan Henry Purcell. Mae'n adrodd stori Aeneas, arwr a sylfaenydd Rhufain, sy'n syrthio mewn cariad â Dido, Brenhines Carthage, Tunisia. Mae Tair Gwrach, sy'n casáu Dido, yn anfon ellyll mewn cuddwisg i berswadio Aeneas i adael Dido a dychwelyd i'r Eidal. A hithau wedi torri ei chalon ar ôl cael ei bradychu, mae Dido'n marw trwy hunanladdiad. Mae'r darn hwn o gerddoriaeth yn ymddangos pan fyddwn yn cwrdd â'r Gwrachod am y tro cyntaf, wrth iddynt drafod eu cynllun i achosi cwymp Dido trwy ddinistrio ei hapusrwydd.

Polska from Dorotea – Swedish Traditional, Danish String Quartet
YouTube Spotify

Math o ddawns yw'r Polska – er ei bod hi'n fwyaf poblogaidd yn Sweden gellir hefyd ei gweld mewn gwledydd Llychlynnaidd eraill (Y Ffindir, Norwy, Estonia, a Denmarc). Dawns yw hon a berfformir gyda phartner, a gallwn ei chymharu â'r Walts sy'n rhan o ddiwylliant nodweddiadol y neuadd ddawns ym Mhrydain. Cyfansoddwyd yr alaw hon yn wreiddiol gan gyfansoddwr o Sweden o'r enw Johan August Andersson, a aned ger Stockholm cyn symud yn ddiweddarach i Dorotea, tref fechan fwy na 400 milltir ymhellach i'r gogledd (mwy na dwywaith hyd Cymru o un pen i'r llall!).

Spiegel im Spiegel – Arvo Pärt
YouTube Spotify

Ystyr Speigel im Spiegel yw "Drych yn y Drych", a glywir yn y gerddoriaeth – bob tro y clywir alaw sy'n mynd at i fyny, gallwn ei chlywed yn cael ei hadlewyrchu cyn mynd yn ôl i lawr eto. Mae'n dechrau gyda dau nodyn ac yn ychwanegu nodyn ar bob pen bob tro y mae'n ailadrodd, gan greu alaw sy'n ymddangos yn ddiddiwedd. Mae pob alaw yn dod yn ôl at yr un nodyn, gan greu teimlad o ddychwelyd adref ar ôl bod i ffwrdd. Mae'r piano'n cyfeilio i'r unawd fel gwarchodwr ar bob cam, gan helpu i'w harwain.